# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI
# 29-03-11

**Yn Bresennol:** Cynghorydd Peter Read (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Robert J. Wright, Sion Selwyn Roberts ac Ioan Thomas (Cyngor Gwynedd), David Dewsbury a Bohdan Brozykowski, (Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli), John Morris (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol), Andrew Picken, (Siambr Fasnach Pwllheli) a Stephen Tudor, (Clwb Hwylio Pwllheli).

**Hefyd yn bresennol:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Wil Williams, (Rheolwr Hafan Pwllheli), Huw Davies, (Prif Beiriannydd), Llyr B. Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Trevor Roberts, (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw). Yn ogystal derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth yr Harbwr Feistr, Trefor Jones.

**Croeso:** Estynnodd y Cadeirydd groeso i Andrew Picken a oedd yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor hwn am y tro cyntaf fel cynrychiolydd Siambr Fasnach Pwllheli.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

O safbwynt Ystadegau'r Harbwr, nodwyd bod gostyngiad o 7% yn nifer y cychod pleser a oedd wedi angori yn yr harbwr allanol ac nid 1% fel ag yr oedd wedi ei gofnodi.

Gyda'r cywiriad uchod, llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 12 Hydref, 2010, fel rhai cywir

## 3. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig gyda sylw penodol yn cael ei roi i'r materion canlynol:

- Ffioedd a Thaliadau
- Cyllidebau
- Mordwyo/Angorfeydd
- Digwyddiadau
- Staff
- Rhestr Aros Angorfa Pontŵn Hafan
- Gwifren Donfyrddio

**Ffioedd a Thaliadau**

Cadarnhaodd y swyddog bod ffioedd a thaliadau'r flwyddyn ariannol nesaf ar gyfer Hafan Pwllheli wedi eu cymeradwyo gan yr Arweinydd Portffolio a'r Swyddogion Statudol. Yn ogystal, cyflwynwyd y ffioedd a thaliadau sy'n ymwneud â harbwr allanol Pwllheli a'r harbyrau eraill a reolir gan Gyngor Gwynedd i'w cymeradwyo gan y Swyddogion Statudol a'r Arweinydd Portffolio.

Cyfanswm targed incwm harbwr allanol Pwllheli ar gyfer 2011/12 fydd £118,130 gyda chyfanswm targed incwm Hafan Pwllheli yn £1,592, 300. Nododd y swyddog ymhellach

fod cynnydd sylweddol o £57,330 yn nharged incwm yr Uned Forwrol. Yn sgil hyn, 'roedd cyfanswm targed incwm yr Uned yn £2,219,360.

Cyfeiriodd y swyddog at yr argymhelliad a wnaed i beidio cynyddu'r ffioedd yn 2011 ar gyfer y rhai sy'n byw'n barhaol yng Ngwynedd yng nghyswllt angorfeydd harbwr allanol Pwllheli. 'Roedd argymhelliad hefyd y dylid cynyddu'r ffioedd a'r taliadau 1% ar gyfer y rhai sy'n byw y tu allan i Wynedd. Pwysleisiodd mai dyma'r ail flwyddyn yn olynol nad oedd ffioedd ar gyfer trigolion lleol gydag angorfeydd yn yr harbwr allanol wedi cael eu cynyddu.

'Roedd yr Arweinydd Portffolio a'r Swyddogion Statudol wedi awdurdodi cynnydd o
o 1% yn y ffioedd a'r taliadau am wasanaeth yn Hafan Pwllheli ar gyfer 2011-12.
Nododd y swyddog fod y cynnydd hwn yn is na'r raddfa chwyddiant ragdybiedig..Rhagwelir graddfa chwyddiant o 1.9% yn Hafan Pwllheli.

Ychwanegodd y swyddog na ellid osgoi'r angen i gyrraedd targedau a chyfeiriodd at ymroddiad y gweithlu a'r angen i sicrhau fod y cwsmeriaid yn cael gwasanaeth o safon uchel.

Mynegwyd pryder gan aelod o safbwynt y cynnydd o 1% am wasanaeth yr Hafan a phwysleisiodd fod y cwsmeriaid yn wynebu cynnydd cyson mewn costau. Pwysleisiodd ymhellach fod Hafan Pwllheli yn sicrhau elw sylweddol, ond bod y pwysau ariannol ar y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cynyddu.

Mewn ymateb, dywedodd y swyddog ei fod yn rhannu pryderon yr aelodau, ond eglurodd na ellir ystyried sefyllfa ariannol Pwllheli yn unigol gan fod rhaid i'r Cyngor ystyried cyllidebau yn eu cyfanrwydd. Yn sgil hyn, nid yw llwyddiant un gwasanaeth yn golygu fod yr elw'n cael ei fuddsoddi ynddo. Cadarnhaodd ei fod yn cyflwyno manylder y sefyllfa a phwysigrwydd Pwllheli yn gyson i'r Swyddogion Statudol.

Ychwanegodd fod angen cael cydbwysedd teg gan ystyried yr angen i ddenu diddordeb pobl leol ac ymwelwyr gan roi sylw hefyd i dargedau incwm.

Cyfeiriwyd at y cyfanswm o £150,000 mae'r Goron yn ei dderbyn o Wynedd. Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod ymdrechion yn cael eu gwneud i gynnal trafodaethau ynglŷn â'r mater, ond nid oedd yn rhagweld y byddai'r swm yn cael ei leihau.

**Cyllidebau**

Cyflwynwyd manylion parthed incwm a gwariant Hafan Pwllheli, yr harbwr allanol a'r traethau'n gyffredinol ar 31 Rhagfyr, 2010.

Nododd y swyddog ei fod yn hyderus y gellir bod yn agos i gyrraedd y targedau incwm ym Mhwllheli, ond nad oedd y sefyllfa parthed harbyrau eraill, sy'n llawer llai, mor galonogol.

Cadarnhaodd y bydd y sefyllfa parthed trydan yn cael ei hadolygu yn ystod 2011-12.

Mewn ymateb i ymholiad, manylodd y swyddog ar y camau gaiff eu cymryd wrth ddarparu adroddiadau'r cyllidebau a phwysleisiodd y rhagwelir cyfanswm elw o £872,000 yn Hafan Pwllheli a nododd y bydd yr arian yma'n mynd at gyfanswm cyllideb y Cyngor.

**Mordwyo/Angorfeydd**

Nododd y swyddog bod holl gymhorthion mordwyo sy'n arwain at harbwr Pwllheli wedi aros yn eu hunfan dros fisoedd y Gaeaf. Ymhelaethodd ar safleoedd y cymhorthion a chyfeiriodd at waith a wnaed i wella ansawdd y marcwyr mordwyo ym mynedfa'r harbwr. Disgwylir cynnal trafodaethau hefo Tŷ'r Drindod ynglŷn â gwneud y cymhorthion yma'n rhai parhaol.

Mae gwaith pellach i'w wneud mewn cysylltiad â'r cymhorthion mordwyo sydd ar y wal fôr a nododd y swyddog fod angen i'r rhai sydd heb arfer mordwyo yn y sianel fod yn wyliadwrus.

Eglurodd bod llawer mwy na'r disgwyl o ddefnydd wedi ei gario i geg yr harbwr yn ystod misoedd y Gaeaf a bod hyn wedi culhau'r sianel yn sylweddol.
Bydd gwaith carthu ceg yr harbwr yn dechrau cyn y Pasg gyda'r defnydd sy'n cael ei garthu yn cael ei storio ar y safle stoc-bentyrru bresennol a disgwylir y bydd hyn yn gwella'r sefyllfa mordwyo'n gyffredinol yng ngheg yr harbwr.

Pwysleisiodd y swyddog bod y llain o dir sydd ar gael ar gyfer storio defnydd ger mynedfa'r harbwr wedi lleihau'n sylweddol. Fodd bynnag, rhagwelir bod digon o le ar hyn o bryd a rhoddwyd ystyriaeth i'r hyn â ellir ei wneud yn y dyfodol ar gyfer ymdrin â'r defnydd.

Nododd y swyddog ymhellach fod yna elfennau cadarnhaol a chyfeiriodd at garthu cyfalaf fydd yn digwydd o fewn tua dwy flynedd ac mai'r bwriad ydy gwneud gwaith carthu pellach i wella'r sianel a rhannau eraill o'r harbwr bryd hynny.

Mynegwyd pryder, a dosbarthwyd dogfen gan gynrychiolydd y Gymdeithas Masnachwyr Morwrol ynglŷn â'r effaith mae diffyg carthu'n ei gael ar y busnesau morwrol.

'Roedd y cynrychiolydd hefyd o'r farn y dylid prydlesu'r Hafan. Mewn ymateb dywedodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned fod y penderfyniad, a wnaed rai blynyddoedd yn ôl, i fewnoli'r Hafan yn drefniant dros dro. Byddai hyn yn rhoi cyfle i'r Cyngor i edrych ar reolaeth ehangach yr harbwr ac ymchwilio i'r posibilrwydd o gael un strwythur rheolaethol ar gyfer yr Hafan a'r angorfeydd allanol.

Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned y caiff gwaith ymchwil parthed opsiynau tymor hir ar gyfer yr Hafan ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Pwysleisiodd fod yr Hafan yn ased pwysig i'r Cyngor ac i ardal Bwllheli, a nododd ymhellach y bydd y gwaith ymchwil yn ymdrin â gwireddu gwir botensial yr Hafan.

Mynegwyd pryder gan aelod ynglŷn â chyflwr y sianel, a dywedodd fod aelodau Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli am gael gwybodaeth bendant ynglŷn â chynlluniau i wella'r sefyllfa. Ychwanegodd yr aelod fod y broblem, a'r angen i garthu'n ymestyn i fasn yr Hafan a phryderai fod llawer o forwyr yn ystyried gadael angorfeydd Pwllheli.

Mewn ymateb dywedodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod cynlluniau ar y gweill gyda charthu cyfalaf yn cael ei ystyried yn ogystal â gwaith 'bed leveller' fel gwaith tymor byr. Ychwanegodd fod rhaid ystyried sefyllfa'r arfordir yn ei gyfanrwydd.

Nododd un aelod fod y sefyllfa bresennol yng ngheg yr harbwr yn beryglus, ac mewn ymateb cyfeiriodd y swyddog ymhellach at waith fyddai'n cael ei wneud yno o fewn rhai wythnosau. Ychwanegodd y bydd gweithiwr yno ar gwch yr harbwr ar adegau prysur i gynorthwyo morwyr.

**Digwyddiadau**

'Croesawodd y swyddog y ffaith fod gŵyl Wakestock yn dychwelyd i fasn gogleddol harbwr Pwllheli rhwng 6 a 9 Gorffennaf. Ychwanegodd fod y trefnyddion wedi gofyn am awdurdod fyddai'n caniatáu i'r ŵyl ddechrau gydag amserlen hyfforddiant ar y dydd Mercher gyda'r cystadlu'n digwydd ddydd Iau, dydd Gwener a dydd Sadwrn.

Mae digwyddiad tebyg yn cael ei gynnal ar draeth Abersoch ddydd Sul, 10 Gorffennaf, a nodwyd nad oedd yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig wedi derbyn gwrthwynebiad i ymestyn cyfnod y digwyddiad.

Cynhelir Gŵyl Fwyd Llŷn ar 28 a 29 Mai a nododd y swyddog y rhagwelir cryn lwyddiant i'r Ŵyl yn arbennig o gofio y bydd yn digwydd yn ystod Gŵyl y Banc a chyfnod gwyliau hanner tymor yr ysgol.
Nododd y swyddog ymhellach fod Hafan Pwllheli wedi ennill y *'Five Anchors Award'* a'r Wobr Baner Las Ryngwladol unwaith eto. Yn ogystal mae Traeth Marian y De wedi ennill Gwobr Baner Las Ryngwladol yn 2011 gyda Thraeth Glan Don yn ennill Gwobr Arfordir Glas.

Cyfeiriodd y swyddog at y Gyfarwyddeb Ewropeaidd Dyfroedd Ymdrochi sy'n dod i rym yn 2015. Bydd 4 dosbarth o ddyfrodd ymdrochi dan y gyfarwyddeb newydd sef:

- Rhagorol
- Da
- Digonol
- Gwael

Ychwanegodd y bydd ateb y meini prawf llym yn her. Fodd bynnag, ychwanegodd fod safon dyfroedd ymdrochi Pwllheli wedi bod yn gyson iawn dros y 5 mlynedd ddiwethaf a bod disgwyl iddynt gael eu gosod yn y dosbarth 'rhagorol' ar gyfer Cyfarwyddeb newydd 2015.

Ymhelaethodd y swyddog ar yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r gyfarwyddeb newydd.

**Staff**

Adroddodd y swyddog fod swydd Cymhorthydd Harbwr Porthmadog a Phwllheli ar gyfer y tymor nesaf wedi eu hysbysebu a bydd y swydd yn ymestyn rhwng 7 Ebrill a 20 Medi 2011. Yn ogystal mae swydd Cymhorthydd Harbwr Abermaw ac Aberdyfi wedi ei hysbysebu a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn cael ei gyflogi o 7 Ebrill hyd at 30 Medi.

Atgoffwyd aelodau yr arferai'r swyddi yma fod yn rhai llawn amser, ond fe'u cwtogwyd dros dro i swyddi chwe mis.

Ychwanegodd y swyddog y caiff nifer o swyddogion traeth eu cyflogi yn ystod tymor yr haf i reoli traeth Baner Las Marian y de a byddant yn dechrau eu dyletswyddau ar 19 Mehefin. Bydd cynorthwyydd Pontŵn Tanwydd yn cael ei gyflogi yn Hafan Pwllheli ar gyfer tymor yr Haf.

Nododd ymhellach mai saith aelod o staff parhaol fu gan yr Adran yn ystod misoedd y Gaeaf a'u bod yn gyfrifol am yr holl arfordir a'r harbyrau. Eglurodd fod gan yr Hafan dîm ar wahân i hyn.

**Rhestr Aros Angorfa Pontŵn Hafan**

Cyflwynwyd diweddariad gan y swyddog mewn cysylltiad ag angorfeydd yr Hafan. Nodwyd y wybodaeth ganlynol:

- Nifer o angorfeydd ar gael yn yr Hafan – 409
- Nifer wedi derbyn am 201l – 352
- Nifer sydd ddim yn derbyn angorfa 2011 (wedi canslo) - 74
- Nifer angorfeydd sydd yn wag – 57
- Nifer ar y rhestr sydd angen angorfa yn 2010 – 189
- Nifer ar y rhestr angen angorfa - 133

Nodwyd bod y cyfan o'r 133 wedi cael cynnig ac wedi gwrthod angorfa am 2011.

Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd fod amrywiol resymau dros wrthod angorfa ond bod diffyg arian a sefyllfa fregus yr economi yn rheswm amlwg. Ychwanegwyd bod y rhan helaethaf yn dymuno aros ar y rhestr.

Er mwyn sicrhau fod y rhestr aros yn adlewyrchu'r sefyllfa mor gywir â phosib, tynnwyd enwau'r rhai sydd wedi gwrthod angorfa fwy nag unwaith oddi ar y rhestr ac fe'u cynghorwyd i ail ymgeisio os ydynt wir angen angorfa.

Gwnaed cais gan aelodau'r Pwyllgor hwn yn y gorffennol i'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig ystyried cynyddu'r gost cofrestru o £50, fel y mae ar hyn o bryd, i £100. Bellach mabwysiadwyd hyn a bydd y ffi newydd yn weithredol o i Ebrill, 2011. Gellir ad-dalu'r blaendal rhestr aros a bydd hefyd yn cael ei gymryd fel rhan o'r taliad pan roddir angorfa i'r ymgeisydd.

'Roedd aelodau'n dal o'r farn fod y rhestr fer yn gamarweiniol, ond credai aelodau y dylid cael y rhestr fel man cychwyn pan fydd angorfeydd ar gael.

Mewn ymateb i ymholiadau a wnaed gan aelodau Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli, cyflwynwyd y wybodaeth ganlynol gan y swyddog:

*O'r nifer o bobl ar y rhestr aros yn ystod y deuddeg mis diwethaf, faint ohonynt sydd wedi gwrthod y cynnig am angorfa?*

- 6m – 3 chais – pob un wedi derbyn
- 8m – 2 gais – un wedi derbyn ac un wedi gwrthod
- 10m- 7 cais – dau wedi derbyn a phump wedi gwrthod
- 12m – 2 gais – pob un wedi gwrthod
- 13.5m 1 cais – 1 wedi gwrthod
- 15m - 1cais - un wedi derbyn

*O'r nifer o bobl ar y rhestr aros yn ystod y deuddeg mis diwethaf, faint ohonynt sydd heb gael cynnig angorfa barhaol?*

- Mae pawb ar y rhestr aros wedi cael cynnig angorfa.

*Beth yw'r cyfnod aros a roddir i ymholwyr lleol ac i ymholwyr nad ydynt yn lleol pan fyddant yn holi am angorfa?*

- Mae'n gwbl bosib y bydd angorfa ar gael i bawb sydd eisiau angorfa yn 2011.

**Gwifren Donfyrddio**

Cyfeiriodd y swyddog at gais a wnaed gan berchennog Ysgol Hyfforddiant Tonfyrddio Pwllheli ynglŷn â gosod gwifren tonfyrddio ar hyd rhan o harbwr allanol Pwllheli.

Eglurodd sut fyddai'r system yn gweithio a nododd y byddai'n cynnwys gosod dau dŵr cymharol isel ar bob pen i'r ardal hyfforddiant gyda'r naill wedi ei leoli gerllaw pen safle'r hen ynys  a'r llall ger mynedfa'r morlyn llonyddu. Byddai gwifren ddur yn cysylltu'r ddau dŵr,

Cyflwynwyd lluniau a diagramau er mwyn cynorthwyo'r aelodau ymhellach.

Nododd y swyddog y gallasai 'Canolfan Hyfforddi Tonfyrddio' yn harbwr Pwllheli fod yn atyniad ychwanegol. Fodd bynnag, ychwanegodd y byddai angen rhoi ystyriaeth bellach i'r ffaith y byddai'r wifren ddur yn croesi rhan o ddyfroedd yr harbwr, a'r risgiau posib fyddai'n gysylltiedig â hyn.

Nododd ymhellach ei fod wedi hysbysu'r ymgeisydd mai'r cam cyntaf fyddai cyflwyno'r mater i Bwyllgor Ymgynghorol yr Harbwr. 'Roedd y swyddog hefyd wedi egluro iddo y byddai'n rhaid cysylltu hefo nifer o gyrff ac awdurdodau.

Cadarnhaodd Cynghorydd lleol nad oedd gan y Bad Achub wrthwynebiad i'r bwriad.
Rhoddwyd ystyriaeth i'r posibiliadau a chadarnhawyd y byddai cyfle i'r aelodau gysylltu â'r swyddog i wneud unrhyw sylwadau pellach a bod y sylwadau yn cael eu cyflwyno o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi cofnodion y Pwyllgor Ymgynghorol.

Nododd y swyddog mai trwydded flynyddol yn hytrach na chaniatâd parhaol fyddai'r fenter yn cychwyn.

Dechreuodd y cyfarfod am 6pm a daeth i ben am 7:40pm

**CADEIRYDD**